Ein gobeithion -
Our hopes -

- **Bod pob plentyn yn dod i'r ysgol bob dydd.**
- *That every child attends school punctually every day.*
- **Bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu a llwyddo bob dydd.**
- *That every child gets the chance to learn and succeed all day, every day.*
- **Bod chi a'ch plentyn yn gwneud y mwyaf o bob cyfle yn yr ysgol drwy'r dydd , bob dydd.**
- *That you and your child make the most of every opportunity available at school, all day, every day.*
- **Bod pob plentyn yn mwynhau dod i'r ysgol bob dydd.**
- *That every child enjoys attending school every day.*

Pennaeth/ Headteacher : Ms Sian Humphreys
Ysgol y Traeth, Ffordd yr Ysgol,Abermaw, Gwynedd, LL42 1HH
Sian.Humphreys@traeth.ysgoliongwynedd.cymru
Tel: 01341 280479







Ysgol y Traeth

Presenoldeb a Phrydlondeb 2023

Attendance and Punctuality 2023

Rhif ffôn/ Phone number:

01341 280479

Presenoldeb/ *Attendance*

Annwyl Riant/ Gwarchodwyr,

Rydym yn awyddus fel ysgol i godi lefelau presenoldeb, eich targed fel teulu ydi 95% ac i ni fel ysgol hefyd.

Eich cyfrifoldeb chi yw:

· Sicrhau fod eich plentyn yn dod i'r ysgol bob dydd oni bai eu bod yn sâl.

· Rhoi gwybodaeth i'r ysgol am unrhyw absenoldeb cyn gynted ag sydd bosibl cyn 9:30yb-ffonio, gadael neges neu ebostio.

· Sicrhau bod eich plentyn yn yr ysgol ar amser - Clwb Brecwast yn cychwyn am 8:00yb gyda mynediad olaf am 8:40 yb / drysau ysgol yn agor am 8.50yb / gwersi yn cychwyn am 9:00yb.

· Sicrhau (os yn briodol) eich bod yn dod i nôl eich plant ar amser - 3:00/ 3:10yh—cysylltwch gyda'r ysgol os ydych yn rhedeg yn hwyr os gwelwch yn dda.

Dear Parent/ Guardian,

We as a school wish to improve attendance, your target as a family is 95% as is ours as a school.

It is your responsibility to:

- *Ensure that your child attends school every day unless ill.*
- *Inform the school of any absence as soon as possible before 9.30am.—phone, leave a message or email.*
- *Ensure that your child arrives promptly at the school – Breakfast Club begins at 8:00am with last admittance at 8:40am/ school doors open at 8.50am/ lessons begin at 9:00am.*
- *Ensure (if appropriate) that you collect your children at the correct time—3:00/ 3:10pm - contact the school if you are running late please.*

Dyma rhai cwestiynau sydd yn codi ar adegau:

1. Ydi hi'n bwysig i ni dderbyn eglurhad am bob absenoldeb?

YDI

2. Ydi hi'n iawn i mi fynd â fy mhlentyn at y meddyg/deintydd yn ystod oriau ysgol?

YDI - ond ceisiwch drefnu y tu allan i oriau ysgol lle bo hynny'n bosibl

3. Ydi hi'n iawn i'r plant fynd ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol?

YDI - ond! Dim ond am 10 diwrnod yn ystod y flwyddyn ysgol gyda chaniatâd gan y Pennaeth/Llywodraethwyr mis o flaen llaw (rhaid i bresenoldeb fod yn 95% neu'n uwch i fod yn awdurdodedig). Bydd angen cwblhau ffurflen gwyliau. Os cymerwch fwy na 10 neu mae presenoldeb yn is na 95%, bydd y dyddiau yn cael eu cofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig. Cofiwch! **Mae pob diwrnod ysgol yn cyfri.** Mae'r ysgol yn argymell yn gryf i chi beidio â chymryd eich plentyn allan o'r ysgol yn ystod y tymor. **Un** cais am wyliau a ganiateir mewn blwyddyn yn unig.

4. Ydi hi'n iawn i mi fynd â'r plant i siopa, torri gwallt, prynu esgidiau newydd, edrych ar ôl brawd/ chwaer yn ystod oriau ysgol?

NAC YDI

EICH CYFRIFOLDEB CHI FEL RHIANT/ GWARCHEIDWAD, AC NID Y PLENTYN YW SICRHAU FOD HYN YN DIGWYDD

Os bydd eich plentyn yn absennol yn aml heb reswm nac eglurhad:

1. Yn y lle cyntaf fe fydd yr ysgol yn cysylltu hefo chi - galwad ffôn, ebost neu lythyr
2. Yr ail gam fydd– bydd y Swyddog Lles Addysg yn cysylltu: llythyru neu ymweld â'ch cartref i geisio eich helpu i ddatrys y broblem.

Here are some questions that are asked frequently:

1. Is it important that we receive an explanation for every absence?

YES

2. Is it alright for me to take my child for a medical/ dental appointment during school hours?

YES – *but try to arrange outside school hours if possible*

3.Is it alright to take the children on holiday during school term?

YES – BUT*! Only for 10 days during a school year with prior consent from the Headteacher/ Governing Body. You will need fill out a holiday form (attendance must be 95% or higher for the holidays to be authorized). If you arrange more than 10 days or have an attendance of lower than 95%, these will be noted as unauthorized absences.* ***Remember– every school day counts!*** *The school strongly suggests that you do not take your child out of school during term time.* ***Only one*** *holiday application per school year will be accepted.*

4. Is it alright for me to take the children shopping, for a haircut, buy new shoes, look after sister/brother during school hours?

NO

IT IS YOUR RESPONSIBILITY AS A PARENT/ GUARDIAN, AND NOT THE CHILD'S, TO ENSURE THAT THIS OCCURS

If your child is often absent without reason or explanation:

1. *In the first instance, the school will contact you - a phone call, email or letter*
2. *The second step is that the Education Welfare Officer will contact you: send you a letter or visit your home to try and help solve the problem.*

Presenoldeb

Presenoldeb da yw'r gyfrinach i lwyddiant eich plentyn; mae presenoldeb da yn golygu 95% neu well.

Presenoldeb 90% = Presenoldeb Da ? **NA**

Mae presenoldeb o 90% yn golygu bod plentyn wedi methu hanner diwrnod bob wythnos o'r flwyddyn ysgol!

Mae presenoldeb o 90% am 1 blwyddyn ysgol yn golygu bod plentyn wedi methu 4 wythnos o ysgol!!

Mae presenoldeb o 90% am 5 mlynedd yn golygu bod plentyn wedi methu hanner blwyddyn ysgol!!!!

CYRRAEDD YSGOL = CYRRAEDD POTENSIAL

Gwelliant bychan mewn presenoldeb = gwahaniaeth mawr mewn cyrhaeddiad

Mae 175 o ddiwrnodau pob blwyddyn pan nad yw'r plant yn yr ysgol felly mae digon o gyfleoedd i gymryd gwyliau.

Os yw eich plentyn yn sal nid ysgol yw'r lle iddo/iddi. Ond mae rhai plant yn smalio salwch er mwyn peidio dod i'r ysgol. Trafodwch pwysigrwydd preseneoldeb a prydlondeb gyda'ch plentyn/plant fel nad oes angen i'r Swyddog Lles Addysg wneud hynny. Mae'r Swyddog Lles Addysg yno i gefnogi chi fel teulu fel yr ydym ni fel ysgol.

Cofiwch am ein polisi drws agored.

Os oes problem gyda prydlondeb neu presenoldeb dewch i'n gweld.

Mae'r tabl isod yn amlygu effaith absenoldeb dros flwyddyn ysgol.

Presenoldeb Blwyddyn Ysgol	Nifer Diwrnodau	Nifer Wythnosau
90%	19	4
80%	38	8
70%	57	11.5
60%	76	15

Mae'r tabl isod yn dangos yr amser y gellir ei golli dros flwyddyn trwy fod yn hwyr bob dydd.

5 munud yn hwyr bob dydd= Colli 3 diwrnod ysgol mewn blwyddyn
10 munud yn hwyr bob dydd= Colli 6.5 diwrnod ysgol mewn blwyddyn
15 munud yn hwyr bob dydd = Colli10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn
20 munud yn hwyr bob dydd = Colli 13 diwrnod ysgol mewn blwyddyn
30 munud yn hwyr bob dydd = Colli 19 diwrnod ysgol mewn blwyddyn

Absenoldeb

Gwerthfawrogwn yn unol â pholisi'r ysgol eich bod yn llythyru neu yn ffonio'r ysgol cyn 9:30 pob bore i esbonio unrhyw absenoldebau disgyblion fel y gallwn ei gofnodi ar y gofrestr ysgol. Os na fyddwn yn derbyn eglurhad byddwn yn eich ffonio ac yn cysylltu gydag ein Swyddog Lles Addysg fydd yn eich llythyru, ffonio neu yn galw draw i drafod y sefyllfa.

Os yw presenoldeb eich mab / merch yn uwch nag 95% does dim i'w boeni amdano – os yw presenoldeb eich mab / merch rhwng 85% ac 94% byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa ond os yw presenoldeb eich mab / merch yn is nag 85% bydd y Swyddog Lles Addysg, Eleri Wyn Jones, yn cysylltu gyda chi yn ystod y tymor/blwyddyn.

Byddwn fel ysgol yn cloi y drws am 9:00 er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion. Os fydd rhywun yn cyrraedd yn hwyr gofynnwn eich bod yn dod i'r brif fynedfa.

Clwb Gofal Cyn Ysgol/ Clwb Brecwast am Ddim

Mae'r Clwb Gofal Cyn Ysgol yn cychwyn am 8:00yb am gost o £1.00 y dydd ac mae angen trefnu lle a thalu amdano ar lein. Mae'r Clwb Brecwast am ddim yn cychwyn am 8:30y.b. gyda'r derbyniad olaf am 8:40y.b. er mwyn sicrhau amser i fwyta eu brecwast. Mae angen trefnu'r lle ar lein i hwn hefyd. Bydd y Clwb Brecwast yn gorffen am 8:50y.b.

Mae'r ddau glwb ar gael i unrhyw blentyn o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

Bydd y plant yn derbyn grawnfwyd oer, tost, llefrith a sudd ffrwyth.

Attendance

Excellent attendance is the secret to success! Excellent attendance means 95% attendance or more.

Attendance 90% = Good Attendance ? **NO**

Attendance of 90% means that a child has missed half a day every week for that academic school year!

Attendance of 90% for 1 school year means that a child has missed 4 weeks of school!!

Attendance of 90% for 5 years means that a child has missed half of a school year!!!

REACHING SCHOOL=
REACHING THEIR POTENSIAL

Small improvement in attendance = significant improvement in attainment

There are 175 days every academic year when children are not in school therefore there are plenty of opportunities to go on holiday.

If your child is ill school is not the place for them but some children fake illness to stay off school. Discuss attendance with your child so that the Educational Welfare Officer does not have to do so. The Educational Welfare Officer is there to help and support you as a family as are we as a school.

Remember our open door policy.

If there is a problem with attendance or punctuality please come to see us to discuss the situation.

The table below highlights the effects of being absent during a school year.

School Year Attendance	Number of Days	Number of Weeks
90%	19	4
80%	38	8
70%	57	11.5
60%	76	15

The table below highlights the time missed over a year through being late every day.

5 minutes late every day= 3 school days missed in a year
10 minutes late every day= 6.5 school days missed in a year
15 minutes late every day= 10 school days missed in a year
20 minutes late every day= 13 school days missed in a year
30 minutes late every day= 19 school days missed in a year

Absence

I would appreciate, in conjunction with school policy, that you call or email the school to explain any absence before 9:30 am so that we can update the school register. If we do not hear from you with an explanation we will contact you and then contact our Educational Welfare Officer who will contact you via letter or phone or call over to discuss the situation.

If your child's attendance is above 95% there is nothing to worry about – if your child's attendance is between 85% and 94% we will be monitoring the situation- if your child's attendance is below 85% then our Educational Welfare Officer, Eleri Wyn Jones, will contact you via letter, phone call or home visit during the term/ year.

As a school we will lock the door and gate at 9:00 to certify the safety of our pupils. If somebody arrives late please come to reception.

Pre– School Care Club/ Breakfast Club

The Pre-School Care Club begins at 8:00 am at a cost of £1.00 a day. You need to book and pay for this online using the School Gateway app. The school Breakfast Club starts at 8:30 with last admittance at 8:40am so as to allow the children time to eat. The Breakfast Club finishes at 8:50am.

Both clubs are available for any pupils from Reception class up to Year 6.

They will receive cold cereal, toast , milk and fruit juice.